

Canllaw Statudol ar gyfer

Rheoliadau Ymrwymadau Masnachu Teg (Moch) 2025

Fersiwn 1.0

Cyhoeddwyd 2^{il} Mehefin 2025

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Cefndir.....	3
Rhan A – Cosbau Sifil	5
Rhan B – lawndal.....	7
Y gallu i wneud sylwadau	8
Yr hawl i apelio penderfyniad	11

Cyflwyniad

1. Darperir y canllaw hwn gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig o dan Reoliad 21 Rheoliadau Ymrwymadau Masnachu Teg (Moch) 2025 (FDOP25). Mae unrhyw gyfeiriad at reoliad yn y canllaw hwn, yn gyfeiriad at reoliad yn FDOP25.
2. Mae'r canllaw hwn yn ymdrin â gosod cosb sifil a/neu iawndal o dan Reoliad 20(1) gan Ddyfarnwr y Gadwyn Gyflenwi Amaethyddol (ASCA), sy'n gweithredu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, yn yr amgylchiadau lle bu methiant i gydymffurfio â gofyniad o dan FDOP25.
3. Rhaid i'r ASCA ystyried y canllaw hwn wrth arfer pwerau o dan Reoliad 20(1).
4. Yn unol â hynny, o dan Reoliad 21, mae'r canllawiau hyn yn nodi:
5. Y materion i'w hystyried wrth benderfynu ar y swm o gosb sifil a/neu iawndal sy'n daladwy am dorri FDOP25 pan fydd yr ASCA yn penderfynu gosod cosb a/neu ddyfarnu iawndal o dan Reoliad 20(1).
6. Hawliau'r prynwr a'r gwerthwr cymwys i wneud sylwadau o dan Reoliad 23.
7. Hawl y prynwr a'r gwerthwr cymwys i gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan Reoliad 25 yn erbyn penderfyniad gan yr ASCA i osod gofyniad o dan Reoliad 20(1).

Cefndir

1. Cyflwynodd Deddf Amaethyddiaeth 2020 bwerau i lunio rheoliadau a all warchod "gwerthwyr cymwys" rhag triniaeth annheg yn y gadwyn gyflenwi. At y dibenion presennol, mae'r diffiniad "gwerthwr cymwys" yn cynnwys unrhyw berson, o fewn neu y tu allan i'r DU, sy'n ffermwr neu'n gynhyrchydd moch cynradd arall, neu'n brynwr moch gan fwy nac un gwerthwr cymwys nad ydynt yn cynnal unrhyw broses o brosesu'r cynnyrch cyn ei werthu ymlaen ("casglwr cynnyrch").
2. Mae FDOP25 yn gosod ymrwymadau ar brynwyr mewn cysylltiad â'r contractau a wneir ganddynt gyda gwerthwyr cymwys ar gyfer prynu moch. Bydd FDOP25 yn dod i rym yn y DU o 13^{eg} Awst 2025. Ar y pwynt hwn, bydd FDOP25 yn berthnasol i bob contract newydd a wneir ar gyfer prynu moch gan werthwr cymwys, oni fydd y gwerthwr cymwys yn rhoi hysbysiad i ddatgymhwyso i'r prynwr, neu opsiwn i "eithrio", o'r FDOP25 ar gyfer pryniannau penodol neu am gyfnod penodol. Bydd cyfnod pontio o 12 mis yn berthnasol ar gyfer contractau gweithredol a lofnodir cyn i'r FDOP25 ddod i rym. O 13^{eg} Awst 2026 ymlaen, bydd pob contract o'r fath yn ddarostyngedig i FDOP25 (unwaith eto, oni bai bod y gwerthwr cymwys yn dewis eithrio o FDOP25 fel y disgrifiwyd uchod).
3. Bydd Dyfarnwr y Gadwyn Gyflenwi Amaethyddol (ASCA), gan weithredu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, yn cyflawni swyddogaethau gorfodi o dan FDOP25.
4. Mae gan yr ASCA y pŵer i ymchwilio i gwynion perthnasol o dan FDOP25 sy'n cael eu cyfeirio gan werthwyr cymwys mewn cysylltiad â contractau prynu moch. Gall yr ASCA ei gwneud yn ofynnol i bartïon i'r contract prynu

moch gyflwyno tystiolaeth sy'n ymwneud â'r gŵyn berthnasol ac, os bydd y naill barti neu'r llall yn methu â darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, gall ddwyn achos sifil i gael y dystiolaeth. Os na fydd y naill barti neu'r llall yn darparu'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani, gall yr ASCA hefyd lunio casgliad negyddol o ran y methiant hwn. Pan fydd yr ASCA yn canfod bod prynwr wedi methu â chydymffurfio â gofyniad o dan FDOP25, gall yr ASCA ei gwneud yn ofynnol i'r prynwr dalu naill ai cosb sifil ac iawndal, neu'r ddau.

5. Mae'n bwysig sicrhau bod cosbau a osodir yn deg, yn gymesur, yn rhesymol ac nad ydynt yn ormodol. Wrth asesu priodoldeb a chymesuredd y gosb, bydd yr ASCA yn ystyried ffeithiau ac amgylchiadau'r achos unigol. Er nad yw'r ASCA wedi'i rwymo gan benderfyniadau blaenorol, byddant yn ceisio sicrhau cysondeb yn eu dull gweithredu.

Gorfodi FDOP25

6. O dan Reoliad 20, pan fydd yr ASCA, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, yn canfod bod prynwr wedi methu cydymffurfio â gofyniad o dan FDOP25, gall ei gwneud yn ofynnol i'r prynwr dalu naill ai cosb sifil a thaliad iawndal, neu'r ddau.
7. O dan Reoliad 23, mae gan y prynwr 28 diwrnod o'r dyddiad y byddant yn derbyn yr hysbysiad o fwriad gan yr ASCA i wneud sylwadau ysgrifenedig mewn cysylltiad â'r gofyniad arfaethedig i osod cosb sifil a/neu iawndal. Pan fydd yr ASCA yn bwriadu gosod gofyniad ar brynwr i dalu iawndal, gall y gwerthwr cymwys wneud sylwadau sy'n gysylltiedig â'r swm, o fewn 28 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad o fwriad.
8. O dan Reoliad 25, gall prynwr y gosodwyd gofyniad arno i dalu cosb sifil a/neu iawndal apelio yn erbyn y penderfyniad i fynnu bod cosb sifil a/neu iawndal yn cael ei dalu; neu swm y gosb sifil a/neu'r iawndal y gorchmynnwyd iddynt ei dalu. Gall gwerthwr cymwys a gyfeiriodd y gŵyn at yr ASCA a arweiniodd at y penderfyniad i osod cosb sifil a/neu iawndal apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â'i gwneud yn ofynnol i'r prynwr dalu naill ai cosb sifil a/neu iawndal neu'r swm y gorchmynnwyd i'r prynwr ei dalu i'r gwerthwr cymwys.
9. Mae Rheoliad 21 yn ei gwneud yn ofynnol i ASCA baratoi a chyhoeddi canllaw ar sut i bennu'r swm priodol o gosb sifil neu iawndal yn ogystal â hawliau'r prynwr a'r gwerthwr cymwys i wneud sylwadau ac i apelio yn erbyn penderfyniad. Rhaid i'r ASCA ystyried y canllawiau wrth arfer y pwerau i osod cosb sifil a/neu iawndal.
10. Fel y nodir yn Rheoliad 20, ni all y gosb sifil fod yn fwy nag 1% o drosiant prynwr, fel y disgrifir ymhellach isod.
11. Nid oes uchafswm wedi'i bennu gan y FDOP25 ar y swm o iawndal y gellir ei osod o dan Reoliad 20.
12. Gellir dyfarnu cosb sifil a/neu iawndal mewn cysylltiad â phob methiant i gydymffurfio â FDOP25.
13. Bydd y canllaw hwn yn parhau i gael ei adolygu a'i ddiweddarau fel sy'n ofynnol gan 21(3).

Materion a fydd yn cael eu hystyried wrth gyfrifo'r swm cosb sifil neu iawndal sy'n daladwy

14. Pan fydd yr ASCA yn canfod nad yw prynwr wedi cydymffurfio â FDOP25, gallai'r ASCA ei gwneud yn ofynnol i'r prynwr dalu cosb sifil i gronfa gyfunol y Llywodraeth a/neu dalu iawndal i'r gwerthwr cymwys.
15. Mae'r adran hon yn nodi'r materion y bydd yr ASCA yn eu hystyried wrth benderfynu ar swm cosb sifil ac iawndal.

Rhan A – Cosbau Sifil

16. Wrth benderfynu ar swm unrhyw gosb sifil, bydd yr ASCA yn ystyried natur ac amgylchiadau'r achos o dorri'r rheoliadau ar sail achos unigol, gan ystyried:
 - a) Difrifoldeb yr achos o dorri'r rheoliadau:
 - y golled a achoswyd i'r gwerthwr cymwys.
 - hyd yr achos o dorri'r rheoliadau.
 - nifer yr achosion o dorri'r rheoliadau sy'n gysylltiedig â'r contract prynu moch y cwynwyd amdanynt a ganfuwyd
 - Unrhyw elw posibl y mae'r ASCA yn amcangyfrif a wnaed gan y prynwr, neu golled bosibl y mae'r ASCA yn amcangyfrif y mae'r prynwr wedi'i osgoi, o ganlyniad i'r achos o dorri'r rheoliadau.
 - P'un a oedd yr achos o dorri'r rheoliadau yn fwriadol neu a fethodd y prynwr gymryd camau rhesymol i osgoi neu atal yr achos o dorri'r rheoliadau.
 - A oedd perchnogion a/neu uwch reolwyr y prynwr yn ymwybodol (neu dylent fod wedi bod yn ymwybodol) o'r achos o dorri'r rheoliadau.
 - Unrhyw achosion blaenorol o dorri FDOP25 gan y prynwr.
 - b) Unrhyw amgylchiadau lliniarol a allai leihau'r gosb, gan gynnwys:
 - Camau lliniaru a gymerwyd gan y prynwr i unioni'r achos o dorri'r rheoliadau, i osgoi achosion yn y dyfodol, gan gynnwys pryd y cymerwyd y camau hyn ac a wnaeth y prynwr eu cyflawni ar ei fenter ei hun.
 - Cydweithrediad y prynwr yn yr ymchwiliad.
 - Hanes blaenorol y prynwr o gydymffurfio â FDOP25.
 - c) Unrhyw ffactorau perthnasol eraill yr ystyrir eu bod yn briodol i'r achos.
17. Bydd yr ASCA yn ceisio sicrhau bod unrhyw gosb a osodir yn gymesur er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng difrifoldeb yr achos o dorri'r rheoliadau a'r niwed a achoswyd ochr yn ochr ag effaith unrhyw gosb ar y prynwr a phartïon perthnasol eraill. Byddai hyn yn cynnwys ystyried yr effaith y byddai gosod y

gosb yn ei chael ar hyfywedd a chynaliadwyedd ariannol y prynwr, yn arbennig lle gallai hyn effeithio ar eu gweithwyr neu werthwyr cymwys eraill, y mae ganddynt gontractau gyda hwy.

18. Bydd yr ASCA hefyd yn ystyried yr angen i atal y prynwr a dorrodd y rheoliadau, neu eraill, rhag cyflawni achosion pellach wrth symud ymlaen, drwy sicrhau nad yw gwerth y gosb yn cael ei orbwyso gan yr elw ariannol a wneir gan y prynwr. Bydd yr ASCA hefyd yn edrych ar effaith unrhyw gamau blaenorol a gymerwyd mewn perthynas â thoriadau tebyg, a'r graddau y mae hyn wedi gwella cydymffurfiaeth â FDOP25.
19. Fel y nodir yn rheoliad 20(3), uchafswm unrhyw gosb sifil yw 1% o drosiant y prynwr. Byddai hyn yn seiliedig ar drosiant perthnasol y prynwr am y flwyddyn fusnes cyn dyddiad y penderfyniad i osod cosb.
20. Mae blwyddyn fusnes yn gyfnod o fwy na chwe mis y cyhoeddodd y mae'r prynwr wedi cyhoeddi neu baratoi cyfrifon cyhoeddedig mewn perthynas ag ef. Os na fydd y flwyddyn fusnes cyn dyddiad yr hysbysiad o benderfyniad cyfwerth â deuddeg mis, rhennir y trosiant perthnasol ar gyfer y flwyddyn fusnes honno â nifer y misoedd yn y flwyddyn fusnes honno ac yna ei luosi â 12.
21. Os nad oedd cyfnod blaenorol o fwy na 6 mis y cyhoeddodd neu y paratôdd y prynwr gyfrifon mewn perthynas ag ef, trosiant y prynwr fyddai'r trosiant cymwys ar gyfer y 12 mis cyn y mis y rhoddwyd yr hysbysiad o'r penderfyniad i osod cosb. Os mai dim ond trosiant am gyfnod o lai na deuddeg mis sydd gan y prynwr, byddai'r trosiant cymwys yn y cyfnod hwnnw'n cael ei rannu â nifer y misoedd yn y cyfnod hwnnw a'i luosi â 12.
22. Y trosiant perthnasol yw:
 - (a) pob swm a geir gan y prynwr o ddarparu nwyddau a gwasanaethau sy'n dod o fewn gweithgareddau cyffredin y prynwr yn y Deyrnas Unedig
 - (b) pob swm a dderbyniwyd gan y prynwr yn ystod gweithgareddau arferol y prynwr yn y Deyrnas Unedig ar ffurf rhodd, grant, cymhorthdal neu ffi aelodaeth, ar ôl didynnu disgowntiau masnach, treth ar werth a threthi eraill yn seiliedig ar y symiau a gafwyd neu a dderbyniwyd felly.

Rhan B – Iawndal

23. Wrth gyfrifo unrhyw iawndal sy'n daladwy, bydd yr ASCA yn ceisio dychwelyd gwerthwr cymwys yn ôl i'r sefyllfa y byddent wedi bod ynddi pe na fyddai'r prynwr wedi torri'r ddarpariaeth berthnasol o FDOP25.
24. Pennir iawndal ar sail achosion unigol a bydd fel arfer yn seiliedig ar swm y golled ariannol a ddioddefwyd o ganlyniad i'r achos o dorri'r rheoliadau.
25. Bydd yr ASCA yn asesu'r swm o iawndal a geisir gan y gwerthwr cymwys, gan ddefnyddio'r holl dystiolaeth sydd ar gael o'u colled ariannol a ddarparwyd yn ystod y broses ymchwilio. Gall yr ASCA bennu iawndal hefyd mewn achosion pan na fydd wedi'i godi gan y gwerthwr cymwys, gan ddefnyddio dystiolaeth a gasglwyd drwy'r broses ymchwilio.
26. Dylai'r gwerthwr cymwys bennu'r sail a ddefnyddiwyd ganddynt i gyfrifo swm yr iawndal a geisir yn eu cwyn a, phan fydd hyn yn cynnwys unrhyw log, y gyfradd llog a ddefnyddiwyd ganddynt.
27. Noder: Gallai treth fod yn daladwy ar unrhyw daliadau iawndal a orchmynnwyd a'r llog sydd wedi cronni ar hyn. Mae HMRC yn darparu canllaw manwl ar drethu gwahanol fathau o daliadau iawndal. Am wybodaeth bellach, efallai y byddwch am ystyried ceisio cyngor proffesiynol ar drethi.

Y gallu i wneud sylwadau

28. Os yw'r ASCA yn bwriadu gorfodi gofyniad ar y prynwr i dalu cosb sifil a/neu iawndal, anfonir hysbysiad ysgrifenedig ("hysbysiad o fwriad") at y ddau barti, a fydd yn nodi'r achos o dorri'r rheoliadau y mae'r ASCA yn credu sydd wedi'i gyflawni, y dystiolaeth y dibynnir arni a'r gosb sifil a/neu'r iawndal y mae'r ASCA yn bwriadu ei osod, ynghyd â manylion ar sut i wneud sylwadau.

Gwneud sylwadau

Prynwyr

29. Gall prynwr y rhoddwyd hysbysiad o fwriad iddynt wneud sylwadau ysgrifenedig mewn cysylltiad â'r gofyniad i dalu cosb sifil neu iawndal. Gall y sylwadau hyn gyfeirio at yr achos honedig o dorri FDOP25 yn ogystal â swm y gosb a/neu iawndal sy'n cael ei gynnig. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am y camau a gymerwyd i gydymffurfio â FDOP25 neu'r effaith y byddai'r gosb arfaethedig yn ei chael ar fusnes y prynwr.

Gwerthwyr cymwys

30. Pan fydd yr ASCA yn cynnig gofyniad i'r prynwr dalu iawndal i'r gwerthwr cymwys, gall y gwerthwr cymwys wneud sylwadau ysgrifenedig mewn cysylltiad â swm yr iawndal arfaethedig.

Terfyn amser ar gyfer gwneud sylwadau

31. Mae gan brynwyr a gwerthwyr cymwys 28 diwrnod o'r dyddiad y byddant yn derbyn yr hysbysiad o fwriad i wneud sylwadau ysgrifenedig. Os na fyddwch yn gwneud sylwadau o fewn y terfyn amser hwn, bydd yr ASCA yn bwrw ymlaen i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar y wybodaeth a'r dystiolaeth a nodir yn yr hysbysiad o fwriad.

Sut i wneud sylwadau

32. Rhaid i'r sylwadau fod yn ysgrifenedig. Dylid anfon sylwadau:

Drwy e-bost i: asca@defra.gov.uk

Drwy'r post i:

The Agricultural Supply Chain Adjudicator
Department for Environment, Food and Rural Affairs
Seacole Building
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Pwy sy'n ystyried y sylwadau

33. Bydd yr ASCA yn ystyried y sylwadau wrth wneud penderfyniad terfynol i osod gofyniad i dalu cosb sifil a/neu iawndal ai peidio.
34. Pan fydd yr ASCA yn penderfynu gosod gofyniad i dalu cosb sifil neu iawndal, gallai fod yr un a gynigir yn yr hysbysiad o fwriad, neu ofyniad gwahanol, yn dibynnu ar benderfyniad terfynol yr ASCA yng ngoleuni unrhyw sylwadau a wnaed.

Sut byddaf yn cael gwybod am y canlyniad?

Prynwyr

35. Bydd yr ASCA yn anfon hysbysiad ysgrifenedig ("hysbysiad o benderfyniad") at y prynwr.
36. Pan fo'r penderfyniad yn golygu gosod gofyniad i dalu cosb sifil neu iawndal o dan reoliad 20(1), bydd yr hysbysiad o benderfyniad yn nodi:
- y gofyniad sy'n cael ei osod a swm y gosb sifil a/neu'r iawndal i'w dalu mewn perthynas â phob achos o dorri'r rheoliadau;
 - y rhesymau dros osod y gofyniad;
 - esboniad o sut y cyfrifwyd y swm;
 - sut y gellir gwneud y taliad;
 - bod y taliad yn ddyledus o fewn 28 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad o benderfyniad;
 - gwybodaeth am hawl y prynwr i apelio yn erbyn gosod gofyniad o dan reoliad 25(1);
 - pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu gosod cosb sifil, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol hawl i adennill unrhyw gosb sifil heb ei thalu fel dyled; neu
37. Pan na fydd y penderfyniad yn gosod gofyniad i dalu cosb sifil neu iawndal o dan reoliad 20(1), bydd yr hysbysiad o benderfyniad yn nodi:—
- y penderfyniad hwnnw;
 - y rhesymau dros wneud y penderfyniad.

Gwerthwyr cymwys

38. Bydd yr ASCA hefyd yn anfon copi o'r hysbysiad o benderfyniad at y gwerthwr cymwys, o fewn 7 diwrnod yn dechrau gyda'r diwrnod ar ôl y dyddiad y bydd yr ASCA yn rhoi hysbysiad o benderfyniad i'r prynwr.
39. Pan fydd yr ASCA yn gwneud gofyniad i'r prynwr dalu iawndal i'r gwerthwr cymwys neu os bydd wedi penderfynu peidio gosod gofyniad i'r prynwr

busnes dalu cosb sifil neu iawndal, bydd yr hysbysiad ysgrifenedig hefyd yn nodi hawl y gwerthwr cymwys i apelio o dan reoliad 25(2).

Beth sy'n digwydd ar ôl i'r hysbysiad o benderfyniad gael ei dderbyn?

40. Os bydd gofyniad i brynwr dalu cosb sifil a/neu dalu iawndal o dan reoliad 20(1), rhaid iddynt wneud hynny o fewn 28 diwrnod o dderbyn hysbysiad o benderfyniad o dan baragraff 24(4).
41. Os bydd y prynwr neu'r gwerthwr cymwys yn penderfynu apelio yn erbyn y penderfyniad, bydd y terfyn amser ar gyfer talu'r gosb sifil a/neu'r iawndal yn cael ei oedi nes y bydd yr apêl wedi'i chwblhau.

Yr hawl i apelio penderfyniad

42. Mae Rheoliad 25(3) yn nodi'r hawl i apelio'r penderfyniad a wnaed gan yr ASCA i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn yr amgylchiadau a nodir isod. Gall y Tribiwnlys Haen Gyntaf benderfynu ar yr apêl drwy ystyried materion nad oedd yr ASCA yn ymwybodol ohonynt. Rhaid anfon neu ddanfon hysbysiad apêl i'r Tribiwnlys er mwyn iddo gael ei dderbyn o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad y derbyniwyd yr hysbysiad o benderfyniad.

Am beth y gallaf apelio?

Prynwyr

43. Gall y prynwr y rhoddwyd gofyniad iddynt dalu cosb sifil neu iawndal o dan FDOP25, apelio yn erbyn:
- y penderfyniad o ofyniad i dalu cosb sifil a/neu iawndal; neu
 - swm y gosb sifil a/neu iawndal y maent wedi'u gorchymyn i'w dalu.

Gwerthwyr cymwys

44. Gall y gwerthwr cymwys a gyfeiriodd y gŵyn at yr ASCA a arweiniodd at y penderfyniad i osod cosb sifil a/neu iawndal, apelio yn erbyn:
- penderfyniad i beidio gwneud gofyniad i'r prynwr dalu cosb sifil neu iawndal;
 - swm unrhyw iawndal y gorchmynnwyd y prynwr i'w dalu i'r gwerthwr cymwys.

Beth sy'n digwydd i'r terfyn amser i dalu cosb sifil a/neu iawndal wrth i mi apelio?

45. Bydd y terfyn amser o 28 diwrnod ar gyfer cosbau sifil a/neu iawndal i'w talu yn cael ei oedi nes y bydd yr apêl wedi'i chwblhau.
46. Os, yn dilyn apêl, bydd y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn cadarnhau'r penderfyniad i osod cosb sifil a/neu iawndal, rhaid i'r prynwr wneud y taliad cyn diwedd 28 diwrnod, gan ddechrau gyda dyddiad dyfarniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf, llai nifer y dyddiau a oedd wedi mynd heibio rhwng y dyddiad y derbyniodd y prynwr yr hysbysiad o benderfyniad gan ASCA a'r dyddiad y ffeiliwyd yr apêl.

At bwy i apelio

47. Rhaid cyflwyno unrhyw apêl a wneir o dan FDOP25 i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Reoleiddio Gyffredinol).
48. Am wybodaeth am sut i apelio gweler gwefan y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Reoleiddio Gyffredinol): <https://www.gov.uk/courts-tribunals/first-tier-tribunal-general-regulatory-chamber>